

2014 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llandinam, Powys) (Terfynau Cyflymder 30 MYA a 40 MYA) 2014

Gwnaed 11 Chwefror 2014

Yn dod i rym 19 Chwefror 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe i Lan Conwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Chwefror 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llandinam, Powys) (Terfynau Cyflymder 30 MYA a 40 MYA) 2014.

Cyfyngiadau

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn y Gefnffordd (A470) (Llandinam, Powys) (Terfynau Cyflymder 40 MYA) 1984(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiedig 11 Chwefror 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; diwygiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1984/690

YR ATODLENNI

**Darnau o Gefnffordd yr A470 yn Llandinam ym
Mhowys.**

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 20 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2022 (Pont Llandinam) hyd at bwynt sy'n 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4527.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 11 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r C2157 hyd at bwynt sy'n 20 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2022 (Pont Llandinam).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4527 hyd at bwynt sy'n 179 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4525.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(LLANDINAM, POWYS) (TERFYNAU
CYFLYMDER 30 MYA A 40 MYA) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio

Traffig 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi. Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 30 MYA a 40 MYA ar ddarnau o Gefnffordd yr A470 yn Llandinam ym Mhowys, fel y'u pennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 14 Chwefror 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol, yn y lleoliadau a ganlyn:

- Swyddfa'r Post, Llandinam, Powys SY17 5BY (08:00 o'r gloch hyd 12:30 o'r gloch);
- Man Gwasanaethau Cwsmer, Cyngor Sir Powys, Lôn Gefn, y Drenewydd, Powys, SY16 2NZ, a
- Chyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1123324.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2014).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd yr A470 yn Llandinam ym Mhowys.

ATODLEN 1 Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 20 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2022 (Pont Llandinam), hyd at bwynt sy'n 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4527.

ATODLEN 2 Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 11 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r C2157 hyd at bwynt sy'n 20 metr i'r gogledd o

ganolbwynt ei chyffordd â'r C2022 (Pont Llandinam).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4527 hyd at bwynt sy'n 179 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4525.